



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

SE6: Fformat ac Aelodaeth y Panel Adolygu Achos

1.1 Fel arfer, aelodau'r Panel Adolygu Achos fydd y canlynol;

- Cadeirydd: aelod uwch priodol o'r staff
- Cynrychiolwyr staff
- Cynrychiolaeth allanol (fel y bo'n briodol)
- Un o swyddogion Undeb y Myfyrwyr.

Sylwer: byddai nifer y cynrychiolwyr staff yn dibynnu ar yr achos unigol, a bob amser lleiafswm yr unigolion fydd y rhain yr ystyrir bod eu hangen i ddarparu'r mewnbwn angenrheidiol i gefnogi'r myfyriwr. Fel arfer, byddai hyn rhwng 3 a 5 o unigolion, ond gellid cynyddu'r aelodaeth pe bernid bod hyn yn briodol.

1.2 Ni fydd y cadeirydd ac o leiaf un aelod arall o'r staff wedi ymwneud o gwbl â'r achos penodol nac wedi cael unrhyw gysylltiad â'r myfyriwr dan sylw. Dewisir aelodau eraill y staff ar sail eu gwybodaeth am achos y myfyriwr a/neu eu gwybodaeth a/neu eu gwybodaeth a'u profiad o broblemau penodol o ran iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Cymerir gofal i sicrhau bod cydbwysedd priodol yn aelodaeth y Panel Adolygu Achos.

1.3 Fel arfer hwn fydd fformat y Panel Adolygu Achos:

- Aelodau'r Panel Adolygu Achos yn cyfarfod heb fod y myfyriwr na'r Swyddog Disgyblu'n bresennol i ystyried materion proses;
- Bydd y myfyriwr ac unrhyw berson gydag ef/hi yn ymuno â'r cyfarfod;
- Bydd y Swyddog Achos yn ymuno â'r cyfarfod;
- Gofynnir i'r Swyddog Achos grynhoi canfyddiadau'r ymchwiliad;
- Gofynnir i'r myfyriwr roi ei b/farn.
- Caiff y panel ofyn cwestiynau i'r Swyddog Achos a'r myfyriwr ill dau. Bydd cyfle i'r myfyriwr ofyn unrhyw gwestiynau.
- Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson gydag ef/hi) a'r Swyddog Disgyblu adael er mwyn caniatáu i'r Panel Adolygu Achos ystyried ei benderfyniad.

1.4 Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson gydag ef/hi) a'r Swyddog Disgyblu ddychwelyd a bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod iddyn nhw am benderfyniad y Panel.

1.5 Caiff pob parti wybod yn ffurfiol yn ysgrifenedig am ganlyniad yr achos ymhen pum diwrnod gwaith clir i ddyddiad y Panel Adolygu Achos.